

Canllawiau ar gyfer Gwneud Cais Cylch COVID-19 YEF

Mae YEF (Youth Endowment Fund) yn bodoli i atal plant a phobl ifanc rhag cael eu denu i droseddu ac ymddwyn yn dreisgar, ac mae'n gwneud hynny drwy ganfod a rhannu'r ffyrdd gorau posib o gefnogi'r rhai y mae'r risg fwyaf iddynt fynd i drybini.

Oherwydd y gofynion i gadw pellter cymdeithasol ac aros gartref, cyfyngwyd ar y mynediad i ysgolion ac mae'r gwasanaethau ieuencid sy'n cael eu darparu wedi gostwng yn ddramatig. Y canlyniad yw bod rhai o'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed wedi colli'r gefnogaeth maen nhw'n dibynnu arni ac yn mynd yn llai a llai gweladwy. Mae llawer o gyrff sy'n teimlo'n gryf iawn ynglŷn â phobl ifanc yn gweithio'n galed i ganfod ffyrdd creadigol o fynd i'r afael â hyn ar adeg pan mae eu sicrwydd ariannol nhw eu hunain yn y fantol.

Mae angen i ni ddysgu mwy am y ffyrdd gorau o gyrraedd a chefnogi'r bobl ifanc hyn sy'n agored i niwed, a hynny ar frys.

Mae dau nod i'r grant hwn - helpu i gyrraedd a chefnogi'r plant hyn sy'n agored i niwed, a hefyd dysgu beth yw'r ffordd orau o ddarparu'r gefnogaeth hon yn y cyd-destun presennol.

Beth fyddwn ni'n ei ariannu:

Byddwn yn darparu cyllid ar gyfer gwaith a fydd yn cefnogi pobl ifanc agored i niwed y mae risg iddynt oherwydd trais ymysg pobl ifanc, ar yr amod bod modd gwneud y gwaith hwnnw gan gadw at ganllawiau llywodraeth y DU ar gadw pellter cymdeithasol ac aros gartref. Mae angen i ni ganfod ar frys a yw prosiectau sy'n cael eu cyflwyno neu'u haddasu o ganlyniad i'r canllawiau cadw pellter cymdeithasol ac aros gartref yn effeithiol o ran cyrraedd pobl ifanc agored i niwed a'u denu i gymryd rhan. Er bod rhywfaint o waith wyneb-yn-wyneb yn parhau, gwyddom fod nifer cynyddol o sefydliadau yn troi at weithgareddau digidol a gweithgareddau dros y we i ddarparu'u cefnogaeth. Am y rhesymau hyn, byddwn yn canolbwyntio yn y cylch hwn ar ddau faes allweddol:

1. Cyflwyno rhaglenni yn ddigidol/dros y we, yn benodol:
 - Cyflwyno rhaglenni o bell/yn ddigidol/dros y we ar sail un-i-un
 - Cyflwyno rhaglenni o bell/yn ddigidol/dros y we ar sail grŵp



- Cyflwyno hunan-gymorth dan arweiniad neu gynnwys rhyngweithiol o bell/yn ddigidol/dros y we
2. Gweithgarwch wyneb yn wyneb y mae modd ei ddarparu gan gadw at y canllawiau cadw pellter cymdeithasol/aros gartref, yn benodol:
- Gweithgarwch wyneb yn wyneb a gyflwynir mewn ysgolion
 - Cyflwyno gwaith ieuencid maes wyneb yn wyneb

Byddwn yn ariannu unrhyw gostau rydych chi angen i ni eu talu er mwyn i chi allu darparu'r gweithgareddau rydych chi'n eu hamlinellu yn eich cais. Mae'r Youth Endowment Fund yn darparu cyllid y gellir ei ddisgrifio fel 'adennill costau'n llawn'; mae hyn yn golygu ein bod yn ariannu costau uniongyrchol prosiectau, a chostau gorbenion rhesymol sy'n ofynnol er mwyn gwneud y gwaith.

Costau uniongyrchol prosiect yw'r rheini nad ydynt ond yn berthnasol i'r gweithgaredd rydych chi'n gwneud cais am gyllid tuag ato; costau na fyddwch ond yn eu hwynebu os bydd eich cais yn llwyddiannus. Gallai'r rhain gynnwys costau staff penodol, treuliau neu gyfarpar penodol sy'n ofynnol er mwyn cyflwyno'r gweithgaredd.

Gorbenion yw costau sy'n rhannol yn ymwneud â'r gwaith rydych chi'n gofyn i ni ei ariannu ac yn ei gynnal, ond sydd hefyd yn cynnal gwaith arall a wneir gan eich sefydliad. Gallai gorbenion gynnwys cyfran o gyflogau staff craidd, eich rhent a chostau cyfleustodau yn ogystal â chostau rheolaidd eraill.

Rydym yn disgwyl i'r grant ar gyfartaledd fod oddeutu £50,000. Yr isafswm grant y gall sefydliadau wneud cais amdano yw £25,000. Nid oes uchafswm, ond bydd y grantiau sy'n cael eu dyfarnu yn gymesur â throsiant y sefydliad(au) sy'n gwneud cais. Os ydych yn gwneud cais am grant blwyddyn, ni wnawn ni ddyfarnu grant sy'n fwy na chyfanswm eich incwm yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

Dylech nodi na wnawn ni ariannu gwaith at ddiben crefyddol neu wleidyddol. Gall sefydliadau sydd wedi'u seilio ar ffydd wneud cais, ond rhaid i'ch ymyriad fod yn agored i bobl o unrhyw ffydd neu ddim ffydd. Ni chaniateir defnyddio ein cyllid ni chwaith i helpu i hyrwyddo unrhyw grefydd.

Dysgu o'r hyn rydyn ni'n ei ariannu

Nod yr Youth Endowment Fund yw adeiladu sylfaen o dystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio i atal troseddu gan bobl ifanc. Er mwyn gwneud hyn, rydyn ni'n gwerthuso popeth rydyn



ni'n ei ariannu. Os ydych yn gwneud cais am gyllid yn y cylch hwn, rhaid i chi fod yn barod i weithio gyda'r Partner Dysgu y byddwn ni'n ei benodi, er mwyn i ni ddysgu o'r hyn rydyn ni'n ei ariannu. Rydyn ni'n disgwyl y bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn gweithio gyda YEF a'r partner dysgu i benderfynu sut y gall eu gweithgaredd nhw gyfrannu orau i'r gweithgarwch dysgu hwn. Mae'r mathau o weithgarwch dysgu rydyn ni'n ei ragweld yn cynnwys:

- Gweithio gyda'r partner dysgu i ddisgrifio sut a pham y bydd eich gweithgaredd yn gweithio.
- Cymryd rhan mewn gweminarau a dulliau dysgu ar-lein eraill i rannu profiad a dysgu ar draws y portffolio o weithgareddau.
- Cymryd rhan mewn dulliau ymchwil ansoddol i rannu eich profiad o sut mae'r gweithgaredd yn gweithio.
- Ar y cyd â'r partner dysgu, archwilio'r ffyrdd gorau o gofnodi barn pobl ifanc am y gweithgaredd.

Faint o gyllid sydd ar gael?

Rydyn ni'n rhagweld y byddwn yn dyfarnu grantiau gwerth c. £6.5M yn y cylch ariannu hwn. Bydd 50% o'r cyllid sydd ar gael yn cael ei neilltuo ar gyfer elusennau a mentrau cymdeithasol. At ddibenion y cylch hwn, rydym yn diffinio elusennau a mentrau cymdeithasol fel cyrff o'r mathau cyfreithiol canlynol:

- Elusen gofrestredig
- Sefydliad Elusennol Corfforedig
- Cwmni Cyfyngedig drwy Warant
- Cwmnïau Buddiannau Cymunedol
- Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus
- Cymdeithasau Budd Cymunedol

Pwy all wneud cais?

Gall unrhyw sefydliad cyfansoddiadol wneud cais. Gallai hyn gynnwys

- Elusennau a mentrau cymdeithasol
- Cwmnïau er elw
- Asiantaethau sector cyhoeddus, fel cynghorau, ysgolion, iechyd neu heddluoedd

Mae gofyn i unrhyw sefydliad sy'n gwneud cais fod yn gweithredu yng Nghymru a/neu Loegr a bod ganddo record flaenorol yn gweithio gyda phobl ifanc drwy ddarpariaeth sydd wedi'i dylunio'n benodol i wella canlyniadau ac atal trais gan bobl ifanc. Gall hyn



fod un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (er enghraifft, hyfforddi gweithwyr ieuenctid).

Gall sefydliadau wneud cais mewn partneriaeth ag eraill, ond bydd angen i un sefydliad fod yn brif ymgeisydd. Os nad yw'r prif ymgeisydd yn cyflwyno'n uniongyrchol i bobl ifanc, bydd angen i chi ddweud gyda phwy rydych chi'n bwriadu gweithio i wneud hyn.

Ni fydd gwneud cais mewn partneriaeth yn golygu ei bod yn fwy neu'n llai tebygol y caiff grant ei ddyfarnu i chi; y peth pwysicaf yw eich bod yn gallu darparu tystiolaeth i ddangos pam y byddai'ch partneriaeth yn effeithiol o ran cyrraedd plant a phobl ifanc mewn perygl.

Os nad oes gan eich sefydliad neu bartneriaeth brofiad o gyflwyno darpariaeth sydd wedi'i bwriadu i wella canlyniadau sy'n lleihau'r perygl o drais gan bobl ifanc, ni ddylech wneud cais.

Gall sefydliadau sy'n cyflwyno gwasanaeth yn ardal mwy nag un awdurdod lleol gyflwyno mwy nag un cais. Fodd bynnag, dim ond un cais fesul sefydliad fesul ardal llywodraeth leol y byddwn yn ei dderbyn. Hefyd, os bydd eich sefydliad yn cyflwyno mwy nag un cais, mae angen dangos yn glir pam fod angen sawl cais. Er enghraifft, os bydd sefydliad yn gwneud cais am gyllid i weithio ar draws ardal awdurdod lleol, ni fyddwn wedyn yn disgwyl cael ceisiadau ychwanegol i weithio mewn trefi a dinasoedd o fewn yr ardal honno.

O ystyried canllawiau cyfredol llywodraeth y DU, a maint y grantiau rydyn ni'n bwriadu eu dyfarnu, rydym yn disgwyl i'r gweithgareddau fod â seiliau lleol a'u bod yn ateb anghenion penodol cymunedau.

Sut mae gwneud cais?

I wneud cais bydd angen i chi gwblhau'r ffurflen gais sydd ar gael ar ein gwefan [yma](#). Mae'r ffurflen yn rhoi cyfarwyddiadau ar yr hyn sydd angen i chi ei wneud, a sut y gallwch gadw'r cynnwys wrth roi gwybodaeth ar y ffurflen.

Llinell Amser

Bydd y ffenestr ymgeisio ar agor am 4 wythnos, a bydd yn cau am **hanner dydd, dydd Mercher 3^{ydd} Mehefin**.



Gallwch gyflwyno eich cais ar unrhyw adeg yn ystod y ffenestr ymgeisio. Er mwyn rhoi adborth cyflym i ymgeiswyr ar eu ceisiadau, byddwn yn adolygu'r ceisiadau ac yn penderfynu ar geisiadau sy'n gofyn am lai na £50,000 drwy gydol y ffenestr ymgeisio. O ran y ceisiadau hyn, byddwn yn ceisio rhoi gwybod i chi o fewn 3 wythnos a fyddwn yn gallu rhoi cyllid i chi ai peidio. Bydd ceisiadau mwy yn cael eu hadolygu gan Bwyllgor Grantiau a Gwerthuso YEF. Bydd yn rhoi gwybod yn uniongyrchol i'r rhai sy'n ymgeisio am grantiau mwy beth fydd y ffrâm amser benodol i benderfyniadau. Fan hwyraf, bydd pob ymgeisydd yn gwybod erbyn Gorffennaf 1^{af} p'un a ydyn ni'n gallu darparu cyllid ai peidio.

Help a Chymorth

Os oes gennych gwestiynau am y cais, anfonwch e-bost at grants@youthendowmentfund.org.uk; bydd aelod o Dîm Grantiau YEF yn cysylltu â chi wedyn i'ch helpu gyda'ch ymholiad. Byddwn hefyd yn diweddarau ein gwefan gyda Chwestiynau Cyffredin gydol y ffenestr ymgeisio [yma](#) ar ein gwefan.

Canllawiau Ymgeisio

Adran 1 - Gwybodaeth sylfaenol am y sefydliad

Mae'r adran hon yn gofyn rhai cwestiynau sylfaenol amdanoch chi a'ch sefydliad. Mae hyn yn cynnwys:

- Pwy ydych chi, eich swydd yn y sefydliad a'ch manylion cyswllt
- Enw cyfreithiol eich sefydliad a'r cyfeiriad cofrestredig
- Eich Rhif Elusen/Tŷ'r Cwmnïau
- Ble rydych chi wedi eich lleoli
- Pryd y cawsoch eich sefydlu
- Eich strwythur cyfreithiol
- Nod eich sefydliad a'ch gwaith gyda phobl ifanc
- Faint o staff a gwirfoddolwyr sydd gennych

Ar gyfer y rhan fwyaf o gwestiynau, bydd angen i chi ddewis un o'r opsiynau sydd wedi'u rhoi.

Adran 2 - Ar gyfer beth ydych chi eisiau cyllid

Mae'r adran hon yn rhoi cyfle i chi ddweud mwy wrthym ar yr hyn yr hoffech chi gael cyllid ar ei gyfer, a sut y bydd yn cefnogi pobl ifanc yn eich cymuned. Mae rhai cwestiynau'n rhoi opsiynau i chi eu dewis, ac rydyn ni'n gofyn i chi ateb rhai cwestiynau yn eich geiriau eich hun. Lle mae angen i chi ysgrifennu ateb, nid oes angen i'r atebion fod yn hir ac ni fyddwn yn asesu'r ffordd mae'r ateb wedi'i ysgrifennu; rydyn ni'n croesawu atebion byr, cryno i'r cwestiynau ac mae pwyntiau bwled i ddarparu'r wybodaeth yn hollol dderbyniol.

1. Beth fydd eich prif ddull o gyflwyno i bobl ifanc?

Dewiswch un o'r dewisiadau isod

- Cyflwyno rhaglenni o bell/yn ddigidol/dros y we ar sail un-i-un
- Cyflwyno rhaglenni o bell/yn ddigidol/dros y we ar sail grŵp
- Cyflwyno hunan-gymorth dan arweiniad neu gynnwys rhyngweithiol o bell/yn ddigidol/dros y we
- Gweithgaredd wyneb yn wyneb a gyflwynir mewn ysgolion
- Cyflwyno gwaith ieuenctid maes wyneb yn wyneb

2. Ble fyddwch chi'n cyflwyno'r gweithgareddau?

Dywedwch wrthym ble yng Nghymru a Lloegr bydd eich gwaith yn cael ei gyflwyno drwy enwi'r ardal(oedd) Awdurdod Lleol lle bydd y gweithgareddau'n cael eu cynnal. Mae rhestr o ardaloedd Awdurdodau Lleol i'w gweld yma.

3. Ydych chi'n cyflwyno'r gweithgareddau hyn ar eich pen eich hun neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill?

Dewiswch yr opsiwn priodol fel ein bod yn gwybod a ydych yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill ai peidio i gyflwyno'r gwaith hwn.

4. Manylion partneriaid

Os dywedoch wrthym yng nghwestiwn 3 eich bod yn gweithio gydag eraill, dywedwch wrthym enwau cyfreithiol y sefydliadau eraill rydych chi mewn partneriaeth â nhw a pham rydych chi wedi dewis gweithio gyda'r sefydliadau hyn.

5. Beth yw oedran y bobl ifanc rydych chi'n bwriadu gweithio gyda nhw?

Dywedwch wrthym beth yw oedran y bobl ifanc y byddwch chi'n eu targedu drwy roi oedran ifancaf a hynaf y rhai fydd yn cymryd rhan.

6. Gyda faint o bobl ifanc rydych chi'n bwriadu gweithio?

Dywedwch wrthym faint o bobl ifanc rydych chi'n gobeithio gweithio gyda nhw o ganlyniad i'r cyllid rydych chi'n gwneud cais amdano, a dywedwch wrthym pa ganran o'r rhain fydd yn 10 - 14 oed.

7. Fyddwch chi'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc o'ch cymuned y mae perygl iddynt gael eu denu i droseddu ac ymddwyn yn dreisgar? Sut ydych chi'n gwybod bod perygl felly iddynt?

Mae'r Youth Endowment Fund yn bodoli i weithio gyda'r plant a'r bobl ifanc y mae mwyaf o berygl iddynt gael eu denu i droseddu ac ymddwyn yn dreisgar, i ddarparu cefnogaeth a fydd yn atal hyn. Mae angen i chi ddweud wrthym sut rydych chi'n gwybod bod perygl i'r bobl ifanc rydych chi'n bwriadu gweithio gyda nhw gael eu denu i droseddu ac ymddwyn yn dreisgar. Ydych chi'n gwybod hyn o waith blaenorol? Ydych chi'n gwybod hyn oherwydd gwybodaeth sy'n cael ei rhannu gan sefydliadau eraill yn eich ardal chi?

8. Beth yw nodweddion cyffredinol y plant a'r bobl ifanc y byddwch chi'n gweithio gyda nhw?

Dewiswch o'r rhestr hon unrhyw nodweddion yr ydych yn credu sy'n perthyn i'r bobl ifanc rydych chi'n bwriadu'u cefnogi

- Ag euogfarn droseddol
- Yn cael gwasanaethau gan Dîm Troseddau leuenctid neu debyg
- Wedi'i gofrestru'n Blentyn mewn Angen
- Yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal
- Mewn perygl o gael ei wahardd o'r ysgol
- Wedi cael ei wahardd o'r ysgol
- Yn chwarae triwant yn aml
- Ag aelod o'r teulu sydd ag euogfarnau troseddol
- Mewn perygl o ddod yn aelod o gang
- Mewn gang
- Â lefelau isel o gyflawniad addysgol
- Wedi'i ddiagnosisio â phroblemau iechyd meddwl
- Wedi dioddef camdriniaeth / trawma yn ei blentyndod cynnar
- Wedi dioddef o droseddau yn ei erbyn
- Yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol
- Yn dangos byrbwylldra mawr/gorfywiogrwydd
- Â hanes o fod ag arfau yn ei feddiant (e.e. cylllell, gwn)
- Â hanes o ddefnyddio alcohol a/neu sylweddau
- Arall (nodwch)

Gallwch ddewis unrhyw un neu bob un o'r nodweddion hyn. Ni fydd nifer y nodweddion a ddewiswch yn effeithio ar p'un a fydd eich cais yn llwyddiannus ai peidio; mae angen yr wybodaeth hon arnom fel ein bod yn gweld gyda pha nodweddion y mae ceisiadau yn gweithio.

9. Dywedwch wrthym a ydych chi'n adnabod y bobl rydych chi'n bwriadu gweithio gyda nhw yn barod

Ydych chi'n gweithio gyda phobl ifanc mae eich gwasanaeth yn eu hadnabod yn barod, neu ydych chi'n bwriadu ymestyn allan at garfanau newydd? Beth yw'r gyfran o gleientiaid newydd o'i chymharu â chleientiaid presennol? Eglurwch sut gwnaethoch chi benderfynu mai dyma'r garfan briodol o bobl ifanc i weithio gyda nhw ar hyn o bryd.

10. Pa wybodaeth sydd gennych am anghenion y bobl ifanc rydych chi'n dymuno gweithio gyda nhw?

Os ydych chi'n adnabod y bobl ifanc rydych chi'n mynd i weithio gyda nhw, a oes gennych chi eisoes wybodaeth gefndir am eu hanghenion ers cyn i'r canllawiau aros gartref ddod i rym a bod yr wybodaeth honno'n llywio'ch gwaith chi nawr? Beth yw'r wybodaeth hon? Sut cafodd hi ei chasglu, ac a ydych chi wedi ceisio ei diweddarau ers i'r argyfwng gychwyn?

11. Pa gyswllt ydych chi'n ei gynnal â'r bobl ifanc?

Os ydych chi'n adnabod y bobl ifanc, ydych chi wedi llwyddo i gadw mewn cysylltiad ers i'r canllawiau cadw pellter cymdeithasol ac aros gartref gael eu cyflwyno? Sut ydych chi wedi gwneud hynny? Os nad ydych chi wedi gallu cynnal cysylltiad â phobl ifanc, beth yw'r problemau penodol sydd wedi achosi hyn?

12. Sut ydych chi'n blaenoriaethu angen ymysg y bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw?

Os ydych chi'n adnabod y bobl ifanc, ydych chi wedi blaenoriaethu angen ymysg eich carfan? Sut ydych chi wedi gwneud hynny?

Os nad ydych chi eisoes yn adnabod y bobl ifanc rydych chi'n bwriadu gweithio gyda nhw, sut ydych chi wedi penderfynu mai'r rhain yw'r bobl ifanc y mae mwyaf o angen cefnogaeth arnynt ar hyn o bryd (yn hytrach na'r bobl ifanc rydych chi'n eu cefnogi fel arfer)?

13. Sut mae cadw pellter cymdeithasol wedi newid anghenion pobl ifanc?

Ydych chi'n gweld unrhyw batrymau angen yn eich gwaith hyd yma ers i'r mesurau cadw pellter cymdeithasol ac aros gartref gael eu cyflwyno? Ydy'r rhain wedi newid o'u cymharu â'r patrymau oedd i'w gweld cyn y pandemig? Os felly, pa dystiolaeth sydd gennych o'r newidiadau hyn?

14. Oes sylw'n cael ei roi i anghenion pobl ifanc mewn perygl yn ystod y cyfnod o gadw pellter cymdeithasol?

Drwy eich ymwneud â phobl ifanc hyd yma, ydych chi wedi gweld unrhyw arwyddion nad oes sylw'n cael ei roi, ers cyflwyno'r mesurau cadw pellter cymdeithasol ac aros gartref, i anghenion pobl ifanc y mae perygl iddynt gael eu denu i droseddu neu ymddwyn yn dreisgar?

15. Pa anghenion sydd gan bobl ifanc mewn perygl nad ydynt yn cael sylw?

Os ydych wedi gweld unrhyw batrymau angen, allwch chi ddweud wrthym yn fyr beth yw'r rhain? Yn eich barn chi, ble nad yw gwasanaethau yn diwallu anghenion pobl ifanc mewn perygl?

16. Sut byddwch chi'n cyrraedd pobl ifanc nad ydych yn eu hadnabod ar hyn o bryd?

Os ydych yn bwriadu ymestyn allan at bobl ifanc nad yw'ch gwasanaeth yn eu hadnabod ar hyn o bryd, dywedwch wrthym sut byddwch yn gwneud y gwaith maes gan gadw at y canllawiau cadw pellter cymdeithasol.

Os mai dim ond gyda phobl ifanc rydych chi eisoes yn eu hadnabod y byddwch yn gweithio, neidiwch i gwestiwn 18.

17. Sut ydych chi wedi blaenoriaethu pobl ifanc nad ydych yn eu hadnabod ar hyn o bryd?

Os ydych yn bwriadu ymestyn allan at bobl ifanc nad yw'ch gwasanaeth yn eu hadnabod ar hyn o bryd, dywedwch wrthym sut rydych chi wedi sefydlu eu hanghenion. Sut gwnaethoch chi benderfynu mai'r rhain yw'r bobl ifanc yn eich ardal y mae mwyaf o angen cefnogaeth arnynt?

Os mai dim ond gyda phobl ifanc rydych chi eisoes yn eu hadnabod y byddwch yn gweithio, neidiwch i gwestiwn 18.

18. Am ba hyd ydych chi'n bwriadu cyflwyno'r gweithgareddau?

Dywedwch pa mor hir, mewn misoedd, rydych chi'n bwriadu cyflwyno'r gweithgareddau.

Mater i ymgeiswyr yw penderfynu pa mor hir maen nhw am gyflwyno gweithgareddau. Yn y cylch hwn byddwn yn darparu cyllid ar gyfer gwaith sy'n para am o leiaf 3 mis a dim mwy na blwyddyn o adeg dyfarnu grant. Fodd bynnag, bydd angen i chi allu cynnal y gweithgareddau fel y'u hamlinellir yn eich cais am y cyfnod hwn o amser dim ots sut bydd y canllawiau cadw pellter cymdeithasol yn esblygu yn y Deyrnas Unedig. Ni chewch addasu eich amserlen gyflwyno na'r math o weithgareddau ar sail newidiadau yng nghanllawiau'r llywodraeth. Y rheswm am hynny yw bod dyletswydd ar yr Youth Endowment Fund i werthuso popeth y mae'n ei ariannu ac asesu ei effeithiolrwydd o ran atal pobl ifanc rhag cael eu denu i droseddu neu ymddwyn yn dreisgar. Felly, bydd gwybod beth fyddwch chi'n ei wneud a thros ba gyfnod o amser yn rhan hollbwysig o'n cynlluniau gwerthuso. Fodd bynnag, byddwn yn gweithio gydag ymgeiswyr llwyddiannu i ddeall yr heriau a'r canlyniadau posib pe bai'r canllawiau cadw pellter cymdeithasol yn newid.

19. Pa weithgareddau ydych chi'n bwriadu eu cynnal? Pam wnaethoch chi ddewis y gweithgareddau hyn?

Mae angen i ni ddeall beth rydych chi'n mynd i'w wneud a sut rydych chi'n mynd i'w wneud. Felly, disgrifiwch y gweithgareddau y byddwch chi'n eu cynnal i gyflawni'r amcanion rydych wedi'u disgrifio, a'r amserlenni ar eu cyfer. Dywedwch wrthym hefyd pwy fydd yn goruchwyllo'r gweithgareddau ac yn eu rhoi ar waith. Os ydych yn dymuno cyflwyno siart Gantt un dudalen i ddangos y gweithgareddau a'r amserlenni, gallwch ei lanlwytho gyda'ch cais (fodd bynnag, nid yw hyn yn orfodol).

20. Pa weithgareddau ydych chi'n bwriadu i'r person ifanc gymryd rhan ynddynt?

Mae angen i ni ddeall sut bydd y gweithgareddau'n edrych i'r bobl ifanc fydd yn cymryd rhan ynddynt. Pa weithgareddau ydych chi'n bwriadu i'r person ifanc gymryd rhan ynddynt? Beth yw nod y gweithgareddau hyn a pha ganlyniadau ydych chi'n ceisio eu gwireddu i'r bobl ifanc y byddwch chi'n gweithio gyda nhw? Pa mor aml y cynhelir y gweithgareddau hyn a faint fyddan nhw'n ei bara? Pa mor hir fydd person ifanc unigol yn cymryd rhan yn y gweithgareddau?

21. Pa brofiad sydd gennych o gyflwyno'r gweithgareddau hyn i bobl ifanc?

Dywedwch wrthym i ba raddau rydych chi wedi cyflwyno'r gweithgaredd hwn a/neu wedi gweithio gyda'r math hwn o berson ifanc o'r blaen drwy weithgareddau tebyg. Os yw'r wybodaeth ar gael, disgrifiwch ganlyniad unrhyw waith blaenorol.

22. Sut bydd y gweithgareddau arfaethedig hyn yn cael eu cyflwyno o dan ganllawiau presennol llywodraeth y DU ar gadw pellter cymdeithasol?

Mae angen i ni wneud yn siwr y bydd popeth rydyn ni'n ei ariannu yn cadw at ganllawiau cyfredol Llywodraeth y DU ar gadw pellter cymdeithasol. Felly, dywedwch wrthym sut gallwch chi gyflwyno eich gweithgareddau a chadw at y canllawiau, er lles y staff a'r bobl ifanc dan sylw. Mae angen hefyd i ni ddeall a fyddai gofyn i'r gweithgareddau arfaethedig newid pe bai'r canllawiau'n newid. Er enghraifft, pe câi'r mesurau cadw pellter cymdeithasol eu dileu'n gyfan gwbl, a fyddai hyn yn effeithio ar eich gallu i gyflwyno'r gweithgareddau fel y bwriadwyd?

23. Sut ydych chi'n gwybod y bydd y gweithgareddau hyn yn helpu pobl ifanc agored i niwed yn eich cymuned?

Mae angen i ni ddeall pam rydych chi'n meddwl y bydd y gweithgareddau hyn yn gwneud gwahaniaeth i'r bobl ifanc agored i niwed rydych chi'n ceisio eu cyrraedd.

Pam mae'r gweithgareddau rydych chi'n eu disgrifio yn mynd i wneud gwahaniaeth i'r bobl ifanc hyn? A oes a wnelo hynny â phroblemau penodol yn y gymuned, neu sialensiau penodol y mae'r bobl ifanc eu hunain yn eu hwynebu? Yn sylfaenol, rydyn ni eisiau deall y rhesymau pam rydych chi'n credu y byddwch yn llwyddo i atal pobl ifanc mewn perygl rhag cael eu tynnu i mewn i droseddu treisgar.

24. Pa weithdrefnau diogelu sydd gennych ar waith ar hyn o bryd a sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â materion diogelu o ran y gweithgareddau hyn?

Dywedwch wrthym sut rydych chi'n bwriadu mynd i'r afael ag unrhyw faterion diogelu neilltuol neu gyd-destunol yng nghyswllt y prosiect penodol hwn.

Byddwn yn ariannu sefydliadau i helpu pobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae'n hanfodol, felly, fod gan bob ymgeisydd llwyddiannus bolisiau a gweithdrefnau priodol yn ymwneud â diogelu a'u bod yn cydymffurfio â phob deddf sy'n berthnasol iddynt. Hefyd, mae angen i ni sicrhau eich bod wedi ystyried yr anghenion diogelu ychwanegol y mae eich gweithgareddau chi a'r sefyllfa bresennol wedi'u creu. Er enghraifft, ydych chi wedi ystyried sut y gallai pobl ifanc gael eu rhoi mewn mwy o berygl os bydd eich gweithgarwch yn mynd ar-lein?

Sylwch y byddwn ni efallai yn gofyn am gopiâu o ddogfennau perthnasol i ategu hyn fel rhan o'r broses aseu.

25. Ydych chi'n gwybod am unrhyw dystiolaeth a fyddai'n cefnogi'r honiad bod y gwaith hwn yn debygol o atal pobl ifanc rhag ymwneud â throseddu treisgar?

Bydd yr Youth Endowment Fund yn asesu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer eich gwaith arfaethedig a'r tebygolrwydd o lwyddiant. Does dim rhaid i chi wneud hyn. Fodd bynnag, os ydych yn gwybod am ymchwil annibynnol sy'n bodoli eisoes a fyddai'n dangos ei bod yn debygol y byddwch yn llwyddo drwy roi'r gweithgareddau ar waith, ac yn dangos y canlyniadau posib, dywedwch wrthym am yr ymchwil. Gallai fod yn ymchwil gennych chi eich hunain neu gan eraill.

Adran 3 – Y sefydliad ac effaith COVID-19

Mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth i'n helpu i ddeall effaith argyfwng COVID-19 ar eich sefydliad. Ni fydd yr atebion a rowch chi yma yn effeithio ar p'un a fydd eich cais yn llwyddiannus ai peidio ond byddant yn help i ni ddeall eich sefyllfa chi ar hyn o bryd. Mae'r rhan fwyaf o'r cwestiynau yn rhoi opsiynau i chi i ddewis o'u plith, a byddwn yn

rhannu'r data hyn gyda chyrrff llywodraeth a chyllidwyr eraill er mwyn helpu i ddangos/ddeall effaith COVID-19 ar sefydliadau.

26. Pa effaith y mae argyfwng COVID-19 wedi'i chael ar eich gallu i gyflwyno gwasanaethau i bobl ifanc?

Rydyn ni'n deall y bydd yr argyfwng presenol wedi effeithio ar eich sefydliad mewn llawer o ffyrdd. Ond dywedwch wrthym sut mae'r argyfwng presenol wedi effeithio'n benodol ar eich gallu i gyflwyno gwasanaethau i bobl ifanc. A yw wedi golygu bod rhai gwasanaethau eisoes wedi gorfod newid i gyflwyno ar-lein? A oes rhai gwasanaethau wedi cael eu canslo'n gyfan gwbl? A yw wedi ei gwneud yn fwy anodd i chi ymgysylltu â phobl ifanc yn eich cymuned? Rydyn ni eisiau deall y sialensiau sy'n benodol i chi a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw.

27. Effaith o ran capasiti staff - a yw staff yn hunanynysu, yn sâl neu'n methu gweithio am eu bod yn agored i niwed wedi effeithio ar eich gallu i gyflwyno gwasanaethau?

Dewiswch un o'r opsiynau:

- Dim newid o ran capasiti staff
- Gostyngiad o hyd at 25% mewn capasiti
- Gostyngiad o 50% mewn capasiti
- Gostyngiad o hyd at 100% mewn capasiti

28. % y staff mewn grŵp agored i niwed - allwch chi amcangyfrif faint o staff sydd yn y categorïau agored i niwed a bennwyd gan y llywodraeth (dros 70, â chyflyrau iechyd a oedd yn bodoli eisoes, yn feichiog)?

Dewiswch un o'r opsiynau:

- Dim staff mewn grŵp agored i niwed
- Hyd at 25% o'r staff mewn grŵp agored i niwed
- Hyd at 50% o'r staff mewn grŵp agored i niwed
- Hyd at 100% o'r staff mewn grŵp agored i niwed

29. Effaith o ran capasiti gwirfoddolwyr - a yw gwirfoddolwyr yn hunanynysu, yn sâl neu'n methu gweithio am eu bod yn agored i niwed wedi effeithio ar eich gallu i gyflwyno gwasanaethau?

Dewiswch un o'r opsiynau:

- Dim gwirfoddolwyr/Dim newid o ran capasiti gwirfoddolwyr
- Gostyngiad o hyd at 25% mewn capasiti

- Gostyngiad o 50% mewn capasiti
- Gostyngiad o hyd at 100% mewn capasiti

30. Effaith Covid-19 ar y gallu i dalu staff heb gymorth gan y llywodraeth – a yw'r argyfwng wedi cael effaith uniongyrchol ar eich gallu i dalu staff heb fanteisio ar becynnau cymorth y llywodraeth (e.e. ffyrlo neu fenthyciadau i fusnesau bach)?

Dewiswch un o'r opsiynau:

- Yn gallu talu'r staff hyd y gellir rhagweld
- Ddim yn gallu talu'r staff ymhen 6 mis
- Ddim yn gallu talu'r staff ymhen 3 mis
- Anawsterau i dalu'r staff nawr

31. Effaith Covid-19 ar y gallu i dalu costau gweithredu heb gymorth gan y llywodraeth – a yw'r argyfwng wedi cael effaith uniongyrchol ar eich gallu i dalu costau gweithredu heb fanteisio ar becynnau cymorth y llywodraeth?

Dewiswch un o'r opsiynau:

- Yn gallu talu'r costau gweithredu hyd y gellir rhagweld
- Ddim yn gallu talu'r costau gweithredu am 6 mis
- Ddim yn gallu talu'r costau gweithredu am 3 mis
- Anawsterau i dalu'r costau gweithredu nawr

32. A yw'r argyfwng wedi effeithio ar eich llif arian, a faint o amser sydd gennych nes bydd y llif arian yn dyngedfennol?

Dewiswch un o'r opsiynau:

- Bydd y llif arian yn dyngedfennol ymhen mwy na 12 mis
- Bydd y llif arian yn dyngedfennol mewn 6-12 mis
- Bydd y llif arian yn dyngedfennol mewn 3-6 mis
- Bydd y llif arian yn dyngedfennol mewn 1-3 mis
- Bydd y llif arian yn dyngedfennol mewn 0-4 wythnos

33. Pa rai o'r cynlluniau cymorth canlynol ydych chi wedi gwneud cais amdanynt?

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

- Ad-dalu Tâl Salwch Statudol
- Cyllid grant cymorth busnes y llywodraeth – e.e. Y Gronfa Grant Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch neu'r Gronfa Grant Busnesau Bach.
- Y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws

- Cyllid cymorth arall gan gyrff ar wahân i'r llywodraeth yn ystod argyfwng y coronafeirws

34. I ba rai o'r cynlluniau cymorth canlynol y mae eich ceisiadau wedi bod yn llwyddiannus ac a ydych eisoes yn manteisio arnynt neu'n disgwyl gwneud hynny yn fuan?

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

- Ad-dalu Tâl Salwch Statudol
- Cyllid grant cymorth busnes y Llywodraeth - e.e. Y Gronfa Grant Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch neu'r Gronfa Grant Busnesau Bach.
- Y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws
- Cyllid cymorth arall gan gyrff ar wahân i'r llywodraeth yn ystod argyfwng y coronafeirws

Adran 4 - Gwybodaeth ariannol

Mae'r adran hon yn eich galluogi i ddweud wrthym am y cyllid rydych chi'n gofyn amdano, a dweud ychydig hefyd am hanes ariannol eich sefydliad.

35. Swm o grant y gofynnir amdano

Dywedwch wrthym faint o gyllid rydych chi'n gofyn amdano.

Yr isafswm y gallwch wneud cais amdano yw £25,000. Nid oes uchafswm, ond bydd y grantiau sy'n cael eu dyfarnu yn gymesur â throsiant y sefydliad(au) sy'n gwneud cais. Os ydych yn gwneud cais am grant blwyddyn, ni fyddwn fel arfer yn dyfarnu grant sy'n fwy na 50% o gyfanswm eich incwm yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

36. Ydych chi wedi sicrhau unrhyw gyllid arall ar gyfer y gwaith hwn?

Ni fydd y ffaith eich bod wedi sicrhau cyllid arall yn effeithio ar p'un a fyddwch yn llwyddiannus o ran cael grant. Mae angen i ni wybod a oes gennych gyllid arall yn barod i'w roi tuag at y gwaith neu a ydych yn gofyn am y costau llawn yn y cais hwn. Atebwch ydyn neu nac ydyn i'r cwestiwn hwn.

37. Manylion y cyllid sydd wedi'i sicrhau

Os ateboch ydyn i gwestiwn 26, dywedwch wrthym am y cyllid rydych chi wedi'i sicrhau yn barod. Dylai hyn gynnwys y symiau sydd wedi'u sicrhau, enw'r cyllidwr, dyddiad dyfarnu'r cyllid ac am ba gyfnod y mae'r cyllid wedi cael ei ddyfarnu.

38. Cyllideb y grant

Rhestrwch yr eitemau unigol yr hoffech chi i ni eu hariannu. Gallwch restru hyd at 12 categori cyllideb, ac mae angen darparu cyfanswm y gost i bob un

Cofiwch, os oes gofyn i chi dalu TAW ar unrhyw eitemau rydych chi'n gofyn i ni eu hariannu, dylech nodi'r gost yn cynnwys TAW. Ni fyddwn yn ychwanegu TAW at eich cyllideb wrth ddyfarnu eich grant.

39. Gwybodaeth ariannol flaenorol

Os yw ar gael, darparwch grynodedb o gyllid eich sefydliad am y ddwy flynedd ddiwethaf, gan ddefnyddio'r tabl a ddarparwyd. Nid oes rhaid i chi fod â dwy flynedd o wybodaeth ariannol i fod yn gymwys i wneud cais am grant ond, os yw'r wybodaeth hon gennych, byddem yn hoffi ei gweld.